



Eich Cyngor

Newyddion gan Gyngor Sir y Fflint

Rhifyn Rhagfyr 2015

Croeso

Diolch am gymryd rhan

Mae'r Cyngor wedi cynnal saith o ddiwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a fynychwyd gan lawer o bobl ar hyd a lled y sir yn ddiweddar i esbonio'r sefyllfa ariannol a'r bygythiadau sy'n wynebu gwasanaethau'r Sir. Clywodd pobl am yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â'r sefyllfa ac am y modd y gallan nhw helpu i ddod o hyd i atebion i'r problemau sylweddol sydd o'n blaenau.

"Ym mhob digwyddiad, cafwyd cefnogaeth gref i'n strategaeth a'r modd rydym yn cyflwyno'n hachos i Lywodraeth Cymru yn gofyn am ei dealltwriaeth a'i chymorth i ymdrin â'r problemau sy'n ein hwynebu o ganlyniad i bolisi cyllidol Llywodraeth y DU. Hoffwn ddiolch i bawb a ddaeth i'r digwyddiadau ac a gynigiodd sylwadau" meddai'r Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd y Cyngor.

"Mae gan gymunedau lleol gyfle da i chwarae eu rhan a gweithio ar y cyd yn y dyfodol i redeg cyfleusterau a gwasanaethau lleol na all y Cyngor barhau i'w darparu. Rydym eisoes yn cydweithio â phobl lleol i'w helpu i ddatrys problemau'n lleol, ac mae'r sylwadau a gynigwyd yn y digwyddiadau'n dangos awydd gwirioneddol a momentwm cynyddol o du unigolion, grwpiau a chymdeithasau i weithio gyda ni i ddiogelu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau hanfodol sy'n rhan ganolog o'n cymunedau."

Ers cynnal y cyfarfodydd, mae'r Cyngor wedi cael manylion ei setliad ariannol dros dro gan Lywodraeth Cymru. Meddai'r Cynghorydd Shotton:

"Mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr achos cryf, a gyflwynwyd yn daer gan deulu Llywodraeth Leol Cymru, dros arafu a lleihau'r toriadau yn y gyllideb, ac rwy'n croesawu hynny.

"Mae Cyngor Sir y Fflint wedi bod yn flaenllaw iawn yn y ddadl dros ddiogelu gwasanaethau lleol hanfodol a buddiannau'r rhai sy'n eu gwerthfawrogi ac yn dibynnu arnynt. Er bod y Cyngor yn parhau i wynebu problemau ariannol sylweddol, bydd y setliad a gyhoeddwyd yn golygu gostyngiad o oddeutu £3.370 miliwn yn y diffyg blaenorol o £21 miliwn. "Tra bo Cynghorau cyfagos yn Lloegr wedi gofod wynebu toriadau dychrynlyd dros y blynyddoedd diwethaf, mae gennym gyfle nawr i greu gwahanol realiti i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a gobeithiwn y bydd arafu toriadau llywodraeth leol fel hyn yn nodi dechrau'r broses hon. Byddwn yn parhau i gyflwyno achos dros fwy o hyblygrwydd ariannol yn y ffordd y caiff Cyngor Sir y Fflint ei ariannu er lles y trigolion a'r busnesau yr ydym yn eu gwasanaethu."

Sylw ar...

Adroddiad Perfformiad Blynyddol

Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Sir y Fflint wedi'i gyhoeddi.

Mae'n adolygu cynnydd y Cyngor yn ôl blaenoriaethau Cynllun Gwella 2014/15 ac yn crynhoi'r hyn y mae'r sefydliad wedi'i gyflawni. Y llynedd, llwyddodd y Cyngor i:

- ragori ar y mwyafrif o'r targedau a'r addewidion a wnaed yn nogfen Dewisiadau Tenantiaid am y drydedd flwyddyn yn olynol: gan gynnwys: gwella system wresogi mewn 966 o gartrefi ac ailwampio'r ystafell ymolchi mewn 127 o gartrefi
- cyflwyno rhaglenni ail-alluogi i 1,235 o bobl yn ystod y flwyddyn. Bu modd lleihau'r pecyn cymorth, neu ei ddileu'n gyfan gwbl, yn achos 78% o'n cwsmeriaid, yn dilyn cyfnod o ail-alluogi
- gweithredu Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd
- gwneud cynnydd sylweddol o ran adfywio'r Fflint, gan gynnwys dymchwel y fflatiau deulawr a gaiff eu disodli gan dai yng nghanol y dref
- bwrw ymlaen â rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain gan sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'w achos busnes llawn ar gyfer rhaglen Band A, a hynny ym mis Ionawr 2015. O ganlyniad, mae'r gwaith o ddatblygu Canolfan Ddysgu yn Nhreffynnon a Chanolfan Ôl 16 yng Ngholeg Cambria wedi dechrau.
- sicrhau bod 99.6% o bobl ifanc 16 oed mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant (mwy nag erioed o'r blaen) drwy weithio mewn partneriaeth a defnyddio'r tîm Cymorth Personol yn effeithiol
- cwblhau cam olaf y cynllun i gyfyngu cyflymder i 20mya y tu allan i ysgolion.

- cwblhau cynllun i wella Coridor Glannau Dyfrdwy; gwella llif y traffig ar hyd Coridor Glannau Dyfrdwy ar y B5129.
- helpu i greu 1,012 o swyddi newydd yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, cryn dipyn mwy na'r 838 yn 2013/14.
- helpu saith o fusnesau yn Sir y Fflint i sefydlu, dargyfeirio neu ehangu fel mentrau cymdeithasol a datblygu rhwydwaith o gynlluniau cymorth ar hyd a lled Gogledd Cymru ar y cyd â'r pum awdurdod lleol arall ac asiantaethau cymorth posibl.
- gwneud cynnydd da o ran Rhwydwaith Menter Busnes Sir y Fflint. Mae ei waith yn cael ei ystyried yn arfer da ac yn cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru fel model rhagorol.
- rhoi cymorth ariannol i 59 unigolyn a 2 grŵp i'w galluogi i sefydlu micro-fenter drwy Brosiect Menter Sir y Fflint.

Dyweddodd y Prif Weithredwr, Colin Everett: 'Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn awdurdod sy'n perfformio'n dda ac sy'n llwyddo yn ôl ei brif amcanion gan ddangos cynnydd da neu foddhaol mewn 97% ohonynt. Yn ogystal â hyn, wrth olrhain perfformiad y Cyngor dros gyfnod, mae'n dangos cynnydd o 63% ac yn cyrraedd y safon uchaf mewn 13% o'r mesurau.'

Dyweddodd y Cynghorydd Billy Mullin, yr Aelod Cabinet dros Reolaeth Gorfforaethol:

"Unwaith eto, mae'r Cyngor wedi dangos ei fod yn sefydliad sy'n perfformio'n dda, yn gosod targedau ac yn cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Gwella. Mae'r ffaith ei fod yn gwella'n gyson o'r naill flwyddyn i'r llall yn golygu bod pobl y sir y cael gwasanaethau gwel."'

Gallwch weld crynodeb a chopi llawn o'r adroddiad yn <http://www.sirryfflint.gov.uk/cy/Resident/Council-and-Democracy/Annual-Performance-Report.aspx> (<http://www.sirryfflint.gov.uk/cy/Resident/Council-and-Democracy/Annual-Performance-Report.aspx>).

Newyddion y Cyngor

Bywyd newydd i hen Bencadlys y Llyfrgell

Mae Banc Bwyd Sir y Fflint yn defnyddio hen Bencadlys y Llyfrgell ar y Campws Dinesig yn yr Wyddgrug fel canolfan i ddosbarthu nwyddau i'w chwe chanolfan yn y Sir.

Mae'r elusen yn cael ei rentu'n rhad am 12 mis gan helpu'r Cyngor gyda'i strategaeth ad-drefnu gyffredinol drwy wneud defnydd o adeilad gwag y byddai'r Cyngor, fel arall, yn gorfod parhau i'w redeg a'i reoli.

Symudodd llyfrgell gyfeirio'r sir o'r adeilad yn ddiweddar i'r llyfrgell yng nghanol y dref ac mae'r gwasanaethau ategol a oedd wedi'u lleoli yn yr adeilad hefyd wedi symud i safleoedd eraill.

Dyweddodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Aaron Shotton: "Mae hyn yn gyfle gwyb i helpu Banc Bwyd Sir y Fflint gyda'u gwaith ardderchog ledled y sir gan hefyd sicrhau arbedion gwerthfawr i'r Cyngor ar adeg pan mae arian yn brin. Mae'n rhan o'n strategaeth i ad-drefnu'r modd y caiff adeiladau'r Cyngor eu defnyddio i weld a allwn weithredu mewn ffordd ratach a mwy effeithlon."

Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd, Bernie Attridge: "Rydym wedi bod yn gefnogol iawn i Fanc Bwyd Sir y Fflint erioed, ac rydym eisoes yn cynnig manau penodol yn Neuadd y Sir i bobl adael rhoddion. Bydd y fenter ddiweddaraf hon, gobeithio, yn rhoi cymorth ychwanegol i ganiatáu iddynt barhau â'u gwaith gwerthfawr yn y gymuned".

Dyweddodd y Gweinidog Andy Leake, Cadeirydd Banc Bwyd Sir y Fflint: "Rydym mor ddiolchgar i Gyngor Sir y Fflint am eu haelioni rhyfeddol a chaniatáu i Fanc Bwyd Sir y Fflint ddefnyddio adnewydd gwyb fel hen adeilad Pencadlys y Llyfrgell. Mae'r Banc Bwyd yn gwasanaethu chwe chanolfan ledled Sir y Fflint ac mae wedi bwydo 18, 750 ers iddo agor yn 2012. Bob mis, bydd dros 500 yn cael help gan y Banc Bwyd, ac mae ein gwaith wedi ehangu. Cysylltwyd â'r Cyngor i ddweud bod angen adeilad newydd arnom, ac rydym wrth ein boddau ein bod yn awr yn agor yr adeilad hwn i helpu'r gymuned ac i leihau costau'r Cyngor lleol. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn defnyddio'r adeilad i greu canolfan ranbarthol i Fanc Bwyd Sir y Fflint."

<http://flintshire.foodbank.org.uk/> (<http://flintshire.foodbank.org.uk/>)

Campws Dysgu Treffynnon

Bu disgyblion a phobl amlwg leol yn helpu i osod llechi a gynhyrchwyd yn lleol ar safle Campws Dysgu newydd Treffynnon, sy'n werth £30 miliwn.

Mae'r contractwyr Galliford Try wedi bod yn gweithio'n agos gyda Northern Welsh Quarries Ltd i ddewis llechi addas o chwarel lechi Llechwedd i'w defnyddio'r tu mewn i'r ysgol newydd.

Mae'r ysgol newydd yn rhan o fuddsoddiad Cyngor Sir y Fflint yn ei ysgolion a cheir arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen gan Lywodraeth Cymru o dan Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Mae'n cael ei hadeiladu ar safle Ysgol Uwchradd Treffynnon. Mae'n cynnwys ysgol gynradd i 315 o blant a fydd yn disodli Ysgol Babanod Perth y Terfyn ac Ysgol y Fron ynghyd ag ysgol uwchradd tri llawr newydd.

Dyweddod cyfarwyddwr rhanbarthol Galliford Try, Ed Wootton: "Mae Galliford Try bob amser yn ceisio bod yn bartner cynhyrchiol gyda'n cadwyn gyflenwi, gan greu gwerth cyraeddadwy a chynaliadwy drwy ein menter 'Ailgylchu'r Bunt yn Lleol'. Cynhaliwyd cyfarfod 'Cwrdd â'r Prynwr' yn ddiweddar a hynny ar y cyd ag Ysgolion Gogledd Cymru a'r Fframwaith Adeiladau Cyhoeddus lle'r oedd cyfle i ni gyfarfod â busnesau fel Northern Welsh Quarries ac rwy'n falch y bydd pawb sy'n defnyddio'r ysgol newydd yn y dyfodol yn mwynhau etifeddiaeth cynnyrch lleol ac arbenigedd y fîm."

Dyweddod y Cynghorydd Kevin Jones, Aelod Cabinet Cyngor Sir y Fflint dros Strategaeth Rheoli Gwastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Hamdden, "Dyma garreg filltir arall yn y broses o adeiladu ysgol a fydd yn cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf i fyfyrwyr yn y dyfodol. Rwy'n falch bod prentisiaid Gogledd Cymru yn rhan o'r prosiect a bod y gwaith adeiladu'n cynnig cyfleoedd hyfforddi gwerthfawr i bobl ifanc. Mae hwn yn gyfnod anodd i gynghorau lleol ond mae'n braf gweld y buddsoddiad hwn yn nyfodol ein pobl ifanc."

Bydd yr ysgolion newydd yn agor fis Medi 2016 a chaiff y cyfleusterau presennol eu defnyddio tan hynny i sicrhau nad yw addysg y disgyblion yn ddiodef.



Canolfan Sir y Fflint yn Cysylltu yn agor yn yr Wyddgrug

Yn dilyn llwyddiant Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu yn Nhrefynnon, y Fflint, Cei Connah a Bwcle, mae Cyngor Sir y Fflint yn falch o gyhoeddi bod y bumed Ganolfan wedi agor yn yr Wyddgrug.

Mae Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu yn rhan allweddol o'r broses o wella'r Cyngor Sir gan roi pwyslais ar wasanaethau cwsmeriaid o'r radd flaenaf mewn lleoliadau hwylus yng nghanol trefi'r sir. Caiff pob canolfan ei datblygu'n ôl anghenion y dref y mae'n ei gwasanaethu. Mae'r Ganolfan yn yr Wyddgrug yn rhan o Lyfrgell yr Wyddgrug yng Nghanolfan Daniel Owen.

Yno, bydd gwybodaeth ar gael i gwsmeriaid ynghyd â gwasanaethau allweddol gan y Cyngor Sir gan gynnwys gwasanaethau tai, gwasanaethau stryd, a chyngor am fudd-daliadau lles, bathodynnau glas, teithio consesiynol a'r dreth gyngor.

Bydd y Ganolfan ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 5pm a bydd ymgynghorwyr wrth law i helpu ag ymholiadau ynglŷn â'r uchod ac unrhyw ymholiadau eraill yn ymwneud â'r Cyngor. Bydd modd defnyddio TGCh a bydd rhan benodol o'r Ganolfan wedi'i neilltuo ar gyfer cwsmeriaid sydd am gael trafodaeth breifat ag ymgynghorydd.

Dyweddod y Cynghorydd Billy Mullin, yr Aelod Cabinet dros Reoli Corfforaethol:

"Rwy'n hynod falch ein bod yn parhau i wneud cynnydd rhagorol o ran ein hymrwymiad i gyflwyno Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu yn nhrefi'r sir. Y Ganolfan yn Nhreffynnon oedd y gyntaf o'i math yn y Gogledd ac, o ganlyniad, mae'r modd rydym yn darparu gwasanaethau wedi gwella'n arw; mae'n braf gweld ein bod yn awr wedi ehangu'r gwaith rhagorol hwnnw ar hyd a lled y sir."

Cynllun Cartrefi Gogledd-ddwyrain Cymru

Mae cynlluniau i hybu twf Cartrefi Gogledd-ddwyrain Cymru wedi'u nodi mewn cynllun busnes pum mlynedd.

Sefydlwyd Cartrefi Gogledd-ddwyrain Cymru ym mis Ebrill 2014 i helpu'r Cyngor i ehangu'r mathau o gartrefi sydd ar gael yn y farchnad dai leol.

Mae'r cynigion yn cynnwys adeiladu 300 o dai fforddiadwy newydd ledled y sir dros y pum mlynedd nesaf drwy Raglen Tai ac Adfywio Strategol y Cyngor. Disgwylir i'r cynllun cyntaf gael ei adeiladu yn The Walks, y Fflint a bydd yn cynnwys hyd at 50 o dai fforddiadwy ar hen safle'r fflatiau deulawr.

Disgwylir hefyd y bydd 16 o gartrefi newydd yn cael eu trosglwyddo i Gartrefi Gogledd-ddwyrain Cymru wrth i ddatblygwyr gyflawni eu rhwymedigaeth i ddarparu tai fforddiadwy o dan gytundebau Adran 106. Caiff yr unedau hyn eu gosod fel tai fforddiadwy. Mae cynlluniau hefyd ar y gweill i gaffael wyth o unedau i'w gosod ar rent fforddiadwy.

Yn ogystal â gosod ei eiddo ei hun, mae gan Gartrefi Gogledd-ddwyrain Cymru gynigion amrywiol i landlordiaid sydd i gyd yn cynnwys gwasanaethau 'parod i denantiaid'. Mae'r cwmni yn cynnig gwasanaeth gosod a rheoli eiddo, wedi'i reoli'n llawn, a chynnig unigryw i berchnogion tai dros 55 oed brydlesu eu heiddo i'r cwmni a chael tŷ cyngor addas.

Dywedodd y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd a Chadeirydd Cartrefi Gogledd-ddwyrain Cymru:

"Sefydlwyd Cartrefi Gogledd-ddwyrain Cymru i ddarparu tai fforddiadwy i bobl leol, sydd naill ai'n methu fforddio'r rhenti uchel y mae landlordiaid preifat yn gofyn amdanynt a/neu bobl nad ydynt yn gymwys i gael tŷ Cyngor. Rwy'n hynod falch bod y cynllun arloesol hwn eisoes yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ymdrech i ddiwallu anghenion tai lleol drwy gynnig nifer o wahanol ffyrdd i bobl ddod o hyd i gartrefi fforddiadwy".

Dywedodd y Cynghorydd Helen Brown, yr Aelod Cabinet dros Dai:

"Cyngor Sir y Fflint oedd yr awdurdod cyntaf yng Nghymru i sefydlu ei gwmni tai ei hun a chafodd y cynllun arloesol hwn ei gydnabod ar lefel genedlaethol ym mis Tachwedd 2014 pan enillodd y Cyngor wobwr gan y Sefydliad Tai Siartredig am 'Syniad Newydd y Flwyddyn'.

"Rwy'n falch iawn o'r cynnydd y mae Cartrefi Gogledd-ddwyrain Cymru wedi'i wneud mewn amser cymharol fyr ers ei sefydlu. Mae'n cynnig gwasanaeth gwych i'r rhai y mae angen rhenti mwy fforddiadwy arnynt ac mae'n golygu y bydd gan bobl y sir lawer iawn mwy o ddewis pan fyddant yn chwilio am le i fyw. Mae'r cwmni hefyd yn cynnig gwasanaethau i landlordiaid."

Meddai'r Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd Cyngor Sir y Fflint:

"Rydym yn falch iawn o Gartrefi Gogledd-ddwyrain Cymru a'r ffaith mai Sir y Fflint yw'r cyngor cyntaf yng Nghymru i gymryd camau uniongyrchol i fynd i'r afael ag anghenion tai yn lleol. Mae'n braf gweld bod Cartrefi Gogledd-ddwyrain Cymru yn cyflawni ein huchelgais mewn modd ymarferol."

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <http://www.northeastwaleshomes.co.uk/> (<http://www.northeastwaleshomes.co.uk/>)

Paratoi at y gaeaf

Mae Cyngor Sir y Fflint yn sicrhau pobl y sir ei fod yn barod i ymdopi â thywydd rhewllyd ar y ffyrdd y gaeaf hwn.

Fel rhan o'i baratodau at y gaeaf, mae gan yr awdurdod gyfanswm o 9,000 tunnell o halen wedi'i storio ar ddau safle (Alltami a Maes Glas), ac ychwanegir at y cyflenwad wrth iddo gael ei ddefnyddio.

Mae loriau graeanu'r Cyngor yn barod i deithio ar hyd ffyrdd y sir, a byddant wrth law i wneud hynny tan ddiwedd mis Mawrth.

Mae'r tîm yn gyfrifol am raeau 12 o ffyrdd sy'n cael eu blaenoriaethu yn y sir, sy'n cyfateb i 45% o ffyrdd Sir y Fflint, un o'r canrannau uchaf yng Nghymru.

Yn ogystal â hyn, mae gan y Cyngor 38 o gontractwyr amaethyddol y gellir galw arnynt i helpu i glirio eira. Mae pob un yn gyfrifol am ffyrdd penodol i sicrhau bod yr holl ffyrdd mabwysiedig sy'n rhan o rwydwaith y sir yn cael eu clirio.

Bydd Tîm Gwasanaethau Stryd y Cyngor hefyd yn trin llwybrau troed yn ôl blaenoriaeth a hynny ar safleoedd sy'n cynnwys ysbytai, cartrefi preswyl, ysgolion, safleoedd bysiau ac ardaloedd siopa yn ystod cyfnodau o rew ac eira.

Caiff biniau / tomenni halen eu llenwi ar ddechrau tymor y gaeaf ac eto ym mis Ionawr os bydd angen.

Dywedodd y Cyngorydd Bernie Attridge, yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a'r Dirprwy Arweinydd:

"Hoffwn sicrhau ein holl drigolion ein bod wedi paratoi'n dda i drin ein ffyrdd os cawn dywydd garw dros y gaeaf. Mae gennym gyflenwad da o halen a bydd ein timau graeanu yn gweithio'n ddiflino i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf yn ystod cyfnodau o dywydd garw."

Arolygiad Gwasanaethau Plant

Mae Gwasanaethau Plant yn Sir y Fflint yn cael eu darparu gan weithlu cymwys a phrofiadol sy'n gallu diwallu anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ôl adroddiad arolygu.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) arolygiad yn gynharach eleni pan edrychwyd yn fanwl ar brofiadau plant a phobl ifanc a oedd wedi neu sy'n dal i fod angen cefnogaeth a/ neu amddiffyniad.

Roedd yr arolygiad hefyd yn ystyried ansawdd y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer plant a theuluoedd, gan gynnwys sampl fach o blant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gofal neu wedi derbyn gofal. Darllenodd arolygwyr ffeiliau achos a chyfweld â staff, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner. Buont hefyd yn siarad â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Canmolodd yr adroddiad broses wneud penderfyniadau clir y Cyngor yn ystod ymchwiliadau amddiffyn plant a'r camau brys a gymerodd i amddiffyn plant a phobl ifanc a oedd mewn perygl dybryd o niwed sylweddol.

Caiff 12 o argymhellion yr adroddiad eu cydnabod fel meysydd yr oedd y Cyngor ei hun eisoes wedi'u nodi ar gyfer gwelliant pellach. Mae hyn yn cynnwys yr angen i gryfhau trefniadau ymhellach pan fydd pobl yn cysylltu â'r gwasanaeth gyntaf a sicrhau bod yr holl systemau mewnol yn cynorthwyo gweithwyr cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau rhagorol.

Mae'r adroddiad yn cefnogi arweinyddiaeth a dulliau llywodraethu cryf yr uwch wleidyddion a swyddogion ac yn croesawu ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu a gweld gwelliant pellach yn y gwasanaethau plant. Amlygodd hefyd mai'r adborth cyffredinol gan staff oedd bod gan Sir y Fflint enw da a'i fod yn lle cadarnhaol i weithio.

Canfu'r arolygwyr pan fo pobl wedi cysylltu lle'r oedd arwydd amlwg bod plentyn neu blant mewn perygl neu wedi dioddef niwed sylweddol, bod penderfyniadau prydlon wedi'u gwneud a bod camau cychwynnol wedi'u cymryd i amddiffyn y plentyn.

Mae'r adroddiad yn nodi bod y cynadleddau achos amddiffyn plant a arsylwyd gan yr arolygwyr wedi cael eu cadeirio'n dda ac yn canolbwyntio ar y plentyn.

Mae'r cyngor hefyd yn gweithio'n galed i geisio sicrhau, lle bo modd, bod plant yn derbyn gofal o fewn eu teulu estynedig neu'n eu cynorthwyo i gynnal perthnasau mwy ysturlon. I gefnogi hyn roedd gwasanaeth cynadleddau grwpiau teuluol cadarnhaol wedi'i sefydlu.

Dywedodd y Cyngorydd Christine Jones, Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol:

"Mae yna bethau da i'w dysgu o'r adroddiad hwn ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni argymhellion yr arolygwyr.

Rydym yn falch fod yr adroddiad yn cydnabod ac yn cymeradwyo ein dull effeithiol o reoli diogelwch plant. Er gwaethaf y pwysau ariannol enfawr a wynebier gan y Cyngor, rydym yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau da, hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae galw cynyddol. Rydym yn derbyn bod meysydd sydd angen gwelliant parhaus a byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain yn ein cynllun gweithredu "

Ychwanegodd Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, Neil Ayling:

"Mae'r adroddiad yn cadarnhau ein hymrwymiad i welliant parhaus y gwasanaethau plant yn Sir y Fflint. Rydym yn falch bod yr adroddiad yn cydnabod nifer o gryfderau yn y Gwasanaethau Plant, yn enwedig ymrwymiad ac ymroddiad ein gweithwyr cymdeithasol. Rydym eisoes yn ymateb i argymhellion yr adroddiad ar gyfer newid pellach."

Prentisiaid Yn Dathlu

Roedd gan brentisiaid o Gyngor Sir y Fflint ddau reswm i ddathlu'n ddiweddar pan gyhoeddwyd fod y Cyngor wedi cyrraedd rownd derfynol y wobwr Rhaglen Prentisiaid y Flwyddyn 2016, yn y Gwobrau Dysgu Cenedlaethol mawreddog, hefyd dewiswyd ei Raglen Prentisiaid fel enghraifft o arfer da i westeio prentisiaid cyfnewid o Ewrop gan Goleg Cambria.

Bu i Brentisiaid Gweinyddu Busnes y Cyngor westeio pedwar o'u cymheiriaid o Ewrop yn Neuadd y Sir fel rhan o fenter gyfnewid a barodd bythefnos. Mae'r Prentisiaid Ewropeaidd i gyd yn ymgymryd â Phrentisiaethau Gweinyddu Busnes yn yr Almaen ar hyn o bryd ac wedi cael profiad o weithio yng ngwasanaethau'r cyngor gan ddarparu cymorth ar draws ystod o feysydd gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, tai, cyllid a gwasanaethau cyfreithiol.

Meddai Colin Everett, Prif Weithredwr,

"Rydym yn hynod falch o gyrraedd y rownd derfynol ar gyfer y wobwr hon sy'n adlewyrchu gwaith caled ac ymrwymiad y Cyngor i wneud ei Raglen Prentisiaethau'n esiampl o ragoriaeth. Roedd yn bleser cael croesawu prentisiaid o'r Almaen i Neuadd y Sir ac rwy'n siŵr fod pawb a gymerodd ran yn y daith gyfnewid wedi elwa o rannu profiadau a sgiliau.

"Mae'r Cyngor yn ymrwymo'n barhaus i brentisiaethau ac rydym yn falch iawn fod mwyafrif ein prentisiaid yn mynd ymlaen i gael eu cyflogi gan y cyngor ar ôl iddynt gwblhau eu Rhaglenni Prentisiaeth.

Meddai Irene Hemming, Prentis Cyfnewid,

"Rwyf wedi mwynhau gweithio gyda Phrentisiaid Sir y Fflint. Mae wedi bod yn gyfle gwych i ehangu fy mhrofiad gwaith a gwella fy Saesneg. Yn yr Almaen rydym yn treulio llai o amser yn y gweithle a mwy o oriau yn y coleg. Mae'r dull o addysgu prentisiaid yn y DU yn dda iawn a mwynheais y ffordd y mae'r cwrs yn cael ei gyflwyno yn y coleg"

Meddai'r Cynghorydd Aaron Shotton,

"Mae'r cyngor yn falch o'i ymrwymiad i hyfforddiant prentisiaid ac yn amlwg mae'r rhaglen gyfnewid yn ategu at y rhaglen heriol hon sy'n rhoi boddhad gan roi cyfle i'n prentisiaid gymharu technegau ac arferion gwaith gyda'r rheiny o ardaloedd eraill yn Ewrop.



Yn y ffotograff gwelir myfyrwyr cyfnewid Gweinyddu Busnes, Cyngor Sir y Fflint, Arweinydd Cyngor Sir y Fflint y Cyngh. Aaron Shotton, Cadeirydd Cyngor Sir y Fflint, y Cyngh. Ray Hughes a Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint Colin Everett

Llwyddiant yr Wythnos Fusnes

Bu Wythnos Fusnes Sir y Fflint 2015 yn llwyddiant mawr, a hynny am y nawfed flwyddyn yn olynol. Denwyd dros 2,000 o gynrychiolwyr i'r digwyddiadau a'r gweithdai gan brofi bod Sir y Fflint yn lle sydd wedi'i hen sefydlu i wneud busnes.

Ymhlith yr uchafbwyntiau eleni roedd yr agoriad swyddogol gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Jones, Llywydd Wythnos Fusnes Sir y Fflint, yn yr Arddangosfa Fusnes Ranbarthol yng Ngholeg Cambria a noddwyd gan Westbridge Furniture Designs.

Dyma'r arddangosfa fusnes fwyaf o'i math yn y Gogledd. Yno, roedd 62 o stondinau yn yn arddangos gwaith cwmnïau a gwasanaethau o bob rhan o'r rhanbarth. Trefnwyd gweithdai a seminarau i drafod y cyfryngau cymdeithasol a marchnata a daeth dros 200 i Frecwast Arloesi Cynghrair Merswy a Dyfrdwy.

Yn y seminarau ar y Rhagolygon ar gyfer Twf Rhanbarthol ar y dydd Mercher, yng ngwesty Springfield, Treffynnon, roedd siaradwyr ar ran prosiect Carchar Gogledd Cymru; Porth y Gogledd a Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu. Ar y dydd Iau, cynhaliwyd Diwrnod yr Economi Genedlaethol a Rhanbarthol yng ngwesty De Vere St. David's, Ewlo, ac roedd y cyflwynwyr yn cynnwys Deloitte, Grant Thornton a Banc Barclays. Ar y dydd Gwener, daeth Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol i Sir y Fflint i gynnal sesiwn Hawl i Holi, a drefnwyd gan gangen Cymru o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain.

Yn ystod yr wythnos hefyd, lanswyd Cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Sir y Fflint yn swyddogol. Mae hwn yn rhan o gynllun ehangach yn y Gogledd-ddwyrain, yn dilyn digwyddiad llwyddiannus ar y cyd â Pro PPC yng ngwesty Northop Country House.

Daeth Wythnos Fusnes Sir y Fflint 2015 i ben gyda'r noson boblogaidd i gyflwyno Gwobrau Busnes Sir y Fflint yn Soughton Hall.

Eleni, cynhaliwyd Wythnos Fusnes Sir y Fflint mewn partneriaeth ag AGS Security Systems, Westbridge Furniture Designs, ynghyd â nifer o bartneriaid a noddwyr eraill.

Dywedodd y Cynghorydd Derek Butler, yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Economaidd:

"Unwaith eto, mae Wythnos Fusnes Sir y Fflint wedi dod â channoedd o fusnesau ynghyd mewn partneriaeth unigryw a llwyddiannus rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Cawsom ddigwyddiadau a seminarau gwych ac, ar ran y Cyngor, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'n holl noddwyr a'n partneriaid sy'n gweithio mor galed gyda thîm Datblygu Busnes y Cyngor i gynnal y digwyddiad hwn."

Ceir manylion Gwobrau Busnes Sir y Fflint yma <http://flintshirebusinessweek.co.uk/?lang=cy> (<http://flintshirebusinessweek.co.uk/?lang=cy>).

Datganiad Dulyn

Mae Tystysgrifau sy'n cadarnhau ymrwymiad Cyngor Sir y Fflint i gyfundeb cenedlaethol Datganiad Dulyn i greu cymuned cyfeillgar i oed i'w gweld yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug.

Wrth i nifer y bobl sy'n byw yn hirach gynyddu, mae angen i gynghorau ystyried ffyrdd o sicrhau bod cymunedau yn cynnig ansawdd bywyd ar gyfer y boblogaeth hŷn.

Mae llofnodi Datganiad Dulyn gan y Cyngor ym mis Chwefror 2014 yn ychwanegu dimensiwn pwysig at y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud ar draws y Sir.

Mae'r datganiad yn ddatganiad cyhoeddus o fwriad i weithio gyda sefydliadau eraill, rhannu profiadau, a hyrwyddo hawliau a chyfleoedd cyfartal i bobl hŷn.

Mae arddangos y tystysgrifau yn nodi lansiad y cynllun Heneiddio'n Dda yn Sir y Fflint sy'n nodi'r gwaith a fydd yn cael ei wneud ar draws Sir y Fflint i gynorthwyo pobl hŷn i gynnal eu lles a'u hannibyniaeth - i wneud Sir y Fflint yn lle da i dyfu'n hen. Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu mewn ymateb i raglen 'Heneiddio'n Dda yng Nghymru' gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, sydd yn nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl hŷn yng Nghymru, gan sicrhau eu bod yn gallu aros yn iach ac yn weithgar a pharhau i gyfrannu at fywyd teuluol a chymunedol.

Dywedodd y Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol:

"Mae byw mewn cymuned sy'n sensitif i anghenion unigol yn rhywbeth yr ydym i gyd am ei brofi. Mae llofnodi'r cytundeb yn rhoi'r Cyngor ar lwyfan rhyngwladol a bydd yn darparu cadarnhad pellach o waith ymroddedig, parhaus. Bydd yn galluogi'r Cyngor i gymryd rhan mewn rhwydwaith cydgysylltiedig ledled Cymru a fydd yn gweithio i addasu canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd i gydfynd orau â chymunedau yng Nghymru."

I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, ewch i:

<http://www.ageingwellinwales.com/wl/home> (<http://www.ageingwellinwales.com/wl/home>)



O'r chwith i'r dde y Cynghorydd Christine Jones, Cynghorydd Ray Hughes, Cadeirydd y Cyngor Sir a Neil Ayling, Prif Swyddog dros Wasanaethau Cymdeithasol.

Newidiadau i Wasanaethau

Gwasanaeth Casglu Gwastraff o'r Ardd

Newidiadau o 1 Rhagfyr 2015 ymlaen:

- Ni fydd gwastraff o'r ardd yn cael ei gasglu am 3 mis (Rhagfyr, Ionawr a Chwefror).

Newidiadau o 1 Mawrth 2016 ymlaen:

- Byddwn yn parhau i gasglu 1 bin brown o bob cartref bob pythefnos.
- Byddwn yn codi t%ol o £24 y flwyddyn am gasglu gwastraff o bob bin brown ychwanegol a bydd angen taliad o £20 i brynu pob bin brown ychwanegol (ni chewch brynu mwy na dau).
- Ni fyddwn yn casglu unrhyw wastraff o'r ardd os nad yw'r wastraff yn eich bin(iau) brown.

I gofrestru i gael bin(iau) brown ychwanegol, ffoniwch Ganolfan Gyswllt Strydlun ar 01352 701234. I sicrhau y cewch chi'r bin(iau) erbyn 1 Mawrth 2016, cysylltwch %o ni cyn gynted %o phosibl.

Sylwch: - gallwch gadw unrhyw finiau ychwanegol sydd gennych ond sylwch mai **dim ond** biniau sydd wedi'u cofrestru %o Chyngor Sir y Fflint fydd yn cael eu gwagu o 1 Mawrth 2016 ymlaen.

Byddwn yn awgrymu'n gryf eich bod yn rhoi enw neu rif eich työ ar eich bin(iau).

Diolch am eich cefnogaeth barhaus i'r gwasanaeth.

Llyfrgell newydd

Gwahoddwyd pobl y sir i weld sut y bydd y llyfrgell newydd yng nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn edrych.

Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y Cyngor Sir gynigion i foderneiddio ac ailwampio gwasanaethau llyfrgell Sir y Fflint. Roedd y cynigion yn cynnwys cynllun i ddatblygu llyfrgell newydd sbon yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy, i wasanaethu cymunedau Penarlâg, Mancot a Queensferry lle mae gwasanaethau rhan amser yn cael eu cynnig ar hyn o bryd mewn hen adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y cynigion yn y cymunedau dan sylw. Er bod llawer yn cydnabod y bydd y ganolfan newydd yn gaffaeliad i'r gwasanaeth llyfrgell yn gyffredinol, roedd nifer hefyd yn pwysleisio bod yn rhaid cynllunio'r gwasanaeth i adlewyrchu'r tair cymuned leol, a gofynnwyd hefyd am wasanaethau ategol yn y cymunedau hyn. Soniwyd hefyd am y posibilrwydd hefyd o fanteisio ar y rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y ganolfan newydd yn costio tua £130,000, a daw'r rhan fwyaf o'r arian - dros £90,000 ohono - o grant gan CyMAL. Bydd hefyd yn arbed oddeutu £50,000 y flwyddyn i'r gwasanaeth llyfrgelloedd.

Arwerthiant Cist Car yr Wyddgrug

Bydd arwerthiant cist car Love Lane yn yr Wyddgrug yn cau dros y gaeaf.

Daeth yr arwerthiant, a gynhelir ar fore dydd Sul, i ben ar 1 Tachwedd a bydd yn dechrau eto ar 3 Ebrill 2016.

Gwasanaeth Marchnadoedd Cyngor Sir y Fflint sy'n rhedeg yr arwerthiant ac, yn ystod misoedd yr haf, mae'n cynhyrchu rhywfaint o incwm i'r awdurdod. Yn ystod y gaeaf, fodd bynnag, mae'n llai poblogaidd ac mae'n gwneud colled.

Dywedodd y Cynghorydd Derek Butler, yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Economaidd: "Fel awdurdod, mae ein cyllideb yn cael ei thorri'n fwy nag erioed o'r blaen ac, yn anffodus, oherwydd y pwysau ariannol y mae ein gwasanaethau'n eu hwynebu, ni allwn gyfiawnhau cadw'r arwerthiant cist car ar agor dros fisoedd y gaeaf."

Beth sydd 'mlaen

Croeso Lliwgar i Eisteddfod yr Urdd yn y Fflint

Daeth dros 3,500 o gefnogwr i'r Fflint ddydd Sadwrn, 3 Hydref i ddathlu'r ffaith fod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dod i Sir y Fflint mis Mai 2016.

Roedd yr Ŵyl Gyhoeddi yn gyfle i blant, pobl ifanc, athrawon, rhieni a phobl leol ddangos eu cefnogaeth i Eisteddfod yr Urdd, fydd yn dod i'r ardal rhwng 30 Mai a 4 Mehefin 2016.

Gorymdeithiodd y criw lliwgar, dan arweiniad band Samba lleol, o Ysgol Uwchradd y Fflint i'r castell. Yno roedd dau lwyfan gyda cherddoriaeth fyw, sesiynau pêl-droed, golff gwirion, stondinau, wal graffiti, sioe un dyn Glyndŵr a gweithdai syrcau.

Yn ôl Aled Sion, Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd, "Roedd y gefnogaeth a gawsom ddydd Sadwrn yn galonogol iawn ac mae'n argoeli'n dda ar gyfer yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf.

Rydym yn ddiolchgar am gymorth y cynghorau tref a chymuned lleol ynghyd â chyngor Sir y Fflint am eu cefnogaeth a'u presenoldeb yn yr Ŵyl gyhoeddi."



Newyddion gan ein partneriaid

Meddwl yn Ddiogel, Yfed yn Ddiogel

Mae'r Ymgyrch Nadolig Meddwl yn Ddiogel, Yfed yn Ddiogel 2015 ar gyfer Sir y Fflint ar y gweill i hyrwyddo yfed diogel a chyfrifol yn ein cymunedau.

Mae wedi'i anelu at sicrhau bod ymwelwyr i Sir y Fflint yn gallu mwynhau noson ddiogel a hamddenol allan yn ystod cyfnod y Nadolig. Mae hefyd yn ceisio hyrwyddo yfed cyfrifol ac atal a lleihau lefelau troseddau treisgar ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a achosir gan alcohol ar yr adeg hon o'r flwyddyn.



Mae ymgyrch Meddwl yn Ddiogel, Yfed yn Ddiogel eleni yn cymryd elfen ranbarthol a lleol i dynnu sylw at y pwysau sylweddol y mae gwasanaethau gweithredol y rheng flaen yn ei wynebu'r adeg hon o'r flwyddyn gan gynnwys yr heddlu, ambiwlans ac adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae adnoddau yn aml yn cael eu rhoi dan bwysau cynyddol wrth i staff allweddol orfod ymdrin â nifer ychwanegol o achosion sy'n gysylltiedig ag alcohol a pharhau i gefnogi gwasanaethau sydd eisoes wedi'u gorymestyn.

Mae'r cyhoedd yn cael eu hannog i lawrlwytho a defnyddio'r ap rhad ac am ddim gan lechyd Cyhoeddus Cymru ONE DRINK ONE CLICK* sydd yn adnodd defnyddiol i hysbysu'r cyhoedd faint y maent yn ei yfed.

Dywedodd y Cynghorydd Bernie Attridge: "Rydym yn gwybod fod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn amser hynod o brysur. Ein nod yw annog pobl i gael amser da, ond i yfed yn gyfrifol. Gall goryfed effeithio ar ymddygiad ac arwain at ganlyniadau difrifol. Mae'r neges yn syml - ni fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais yn cael ei oddef a bydd unrhyw un sy'n ymddwyn yn anghyfrifol yn cael eu trin yn briodol ac yn gyflym gan sicrhau fod Sir y Fflint yn lle diogel i ddod a mwynhau noson allan.

Meddai'r Uwch-arolygydd Jane Banham o Heddlu Gogledd Cymru: "Rydym am i bobl fwynhau tymor y Nadolig, ond rydym yn gwybod o brofiad y bydd rhai pobl ar yr adeg hon o'r flwyddyn yn dod i niwed oherwydd gormod o alcohol a'r gwasanaethau brys a'r cynghorau lleol sy'n cael eu gadael yn datrys y broblem.

"Nod yr ymgyrch hon yw sicrhau bod y rhai sy'n yfed ac yn gwerthu alcohol yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd.

"Rydym yn gwneud cyfraniad sylweddol at gadw canol ein trefi yn ddiogel fel y gall pobl fwynhau noson dda allan, ond rhaid inni gyfleu'r neges bod angen i bobl gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hunain a'u ffrindiau i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn cael eu hanafu, yn dioddef trosedd, neu fod yn rhan o drais drwy yfed gormodol.

"Bydd Heddlu Gogledd Cymru, gan weithio gyda'n partneriaid, yn sicrhau bod tafarndai, clybiau, siopau ac yfwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith. Bydd y rhai nad ydynt, yn cael eu trin yn gadarn.

"Mae'r neges yn syml - meddwl yn ddiogel, yfed yn ddiogel"

*Mae'r ap 'One Drink One Click' ar gael i'w lawrlwytho yn <http://appstore.com/onedrinkoneclick> (<http://appstore.com/onedrinkoneclick>).

Ionawr Sych 2016

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Alcohol Concern eto eleni i hybu'r sialens **Ionawr Sych** i fynd heb ddiferyn o alcohol am fis crwn cyfan. Wrth i'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd agosau, mae dechrau mis Rhagfyr yn amser gwych i feddwl ymlaen ac ystyried ymuno â sialens Ionawr Sych. Mae'n sialens sydd yn denu mwy a mwy o ddiddordeb bob flwyddyn!

Ymgyrch ar gyfer pob un ohonom ni sy'n ein gweld ein hunain yn yfwyr cymdeithasol digon normal yw Ionawr Sych. Nid perswadio neb i roi'r gorau i alcohol unwaith ac am byth yw'r amcan. Rhoi munud i ni feddwl yw'r nod; a chyfle, efallai, i newid ein harferion. Siawns ydio i ddeffro gyda phen clir bob bore am fis, arbed ychydig o arian, a cholli tipyn o bwysau. Yn bennaf, mae'n gyfle i ni reoli'r ddiod a gwella iechyd y corff a'r meddwl.

Mae'n hawdd iawn cymryd rhan. Gall unrhyw un ymuno yn Gymraeg (neu Saesneg) trwy www.dryjanuary.org.uk/cymraeg (<http://www.dryjanuary.org.uk/cymraeg>). Gall pobl hefyd ddilyn y sgwrs, annog a chefnogi eu gilydd a rhannu syniadau am bethau i'w gwneud yn lle yfed trwy @IonawrSych ac ar Facebook.

Gwasanaethau'r Cyngor dros y Nadolig

Gwastraff ac Ailgylchu



Mae Tîm Gwastraff ac Ailgylchu Cyngor Sir y Fflint yn dymuno Nadolig Llawn i bob un ohonoch

Diwrnod Casglu Arferol	Diwrnod casglu diwygiedig	Beth fydd yn cael ei gasglu
Dydd Llun Rhag 21	Dim newid	Bin du, bwyd ac ailgylchu
Dydd Mawrth Rhag 22	Dim newid	Bin du, bwyd ac ailgylchu
Dydd Mercher Rhag 23	Dim newid	Bin du, bwyd ac ailgylchu
Dydd Iau Rhag 24	Dim newid	Bin du, bwyd ac ailgylchu
Dydd Gwener Rhag 25	27, 28 neu 29	GWASTRAFF BWYD YN UNIG*
Dydd Sadwrn Rhag 26	27, 28 neu 29	GWASTRAFF BWYD YN UNIG*
Dydd Sul Rhag 27	Dim newid	Gwastraff bwyd ac ailgylchu
Dydd Llun Rhag 28	Dim newid	Gwastraff bwyd ac ailgylchu
Dydd Mawrth Rhag 29	Dim newid	Gwastraff bwyd ac ailgylchu
Dydd Mercher Rhag 30	Dim newid	Gwastraff bwyd ac ailgylchu
Dydd Iau Rhag 31	Dim newid	Gwastraff bwyd ac ailgylchu
Dydd Gwener Ion 01	3, 4 neu 5 Ion	Bin du, bwyd ac ailgylchu*
Dydd Sadwrn Ion 02	Dim newid	Bin du, bwyd ac ailgylchu
Dydd Sul Ion 03	Dim newid	Bin du, bwyd ac ailgylchu

* Cyfeiriwch at wefan y Cyngor a theipiwch eich cod post a chliciwch ar y ddolen gyswilt i'ch Calendr Nadolig

Bydd casgliadau arferol yn aildechrau yn yr wythnos sy'n dechrau Dydd Llun 4 Ionawr 2016; cyfeiriwch at eich calendr

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan:
www.siryfflint.gov.uk
 neu ffoniwch 01352 701234

Parciau ailgylchu:
 Bydd pob Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn agored fel arfer. Bydd pob un wedi cau ar Ddydd Nadolig
 Mae modd mynd â choed Nadolig i unrhyw un o'r 7 Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar ôl y Nadolig



Gwasanaethau'n cau dros y Nadolig

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cau Neuadd y Sir ac adeiladau eraill rhwng y Nadolig a'r Fflwyddyn Newydd er mwyn arbed arian drwy leihau'r gost o redeg eiddo'r Cyngor dros gyfnod tawel y Nadolig.

Ni fydd hyn yn effeithio ar wasanaethau hanfodol megis gwaith trwsio brys gan y Gwasanaethau Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Stryd; bydd y rhain yn parhau.

Neuadd y Sir, yr Wyddgrug - yn cau am 5pm ddydd Iau 24 Rhagfyr 2015 ac yn ail-agor ddydd Llun 4 Ionawr.

Swyddfa Gofrestru, Plas Llwynegryn, Yr Wyddgrug – bydd gwasanaethau cyfyngedig, a bydd ar agor yn ôl anghenion y gwasanaeth

Gwnaed y penderfyniad i gau'r adeiladau gan fod y Cyngor yn wynebu toriadau i'r gyllideb na welwyd eu tebyg o'r blaen.

Dywedodd y Cynghorydd Billy Mullin, yr Aelod Cabinet dros Reolaeth Gorfforaethol: "Fel nifer o sefydliadau, mae gweithlu'r Cyngor yn lleihau dros gyfnod y Nadolig fel arfer gan fod nifer o weithwyr yn cymryd gwyliau i dreulio amser gyda'u teuluoedd.

"Waeth faint o staff sydd yn ein swyddfeydd yn ystod y cyfnod hwn, yr un yw'r gost o'u gwresogi a'u goleuo. Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni nid yw hyn yn ffordd effeithlon o ddefnyddio adnoddau ac felly gwnaed penderfyniad i gau Neuadd y Sir a'r adeiladau ar y safle'n gyfan gwbl dros gyfnod y Nadolig".

Dywedodd y Prif Weithredwr Colin Everett: "Gallaf sicrhau'r cyhoedd y bydd y gwasanaethau allweddol yn parhau yn ystod y cyfnod hwn. Ni fydd yn effeithio ar wasanaethau hanfodol na'r gwasanaethau brys."

Oriau Agor a Rhifau Cysylltu mewn Argyfwng dros y Nadolig



Oriau Agor a Rhifau Cysylltu mewn Argyfwng dros y Nadolig

Neuadd y Sir, yr Wyddgrug

Ar gau rhwng 5pm dydd Iau 24 Rhagfyr a 8:30am dydd Llun 4 Ionawr 2016

Swyddfa Gofrestru, Plas Llwynegrin, Yr Wyddgrug

Lefel is o wasanaeth, gan agor yn ôl yr angen

Llyfrgelloedd

Edrychwch ar y wefan i weld beth yw'r oriau agor

Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu

Bwcle a'r Wyddgrug

Dydd Llun 21 Rhagfyr i ddydd Iau 24 Rhagfyr, rhwng 9.30am a 5pm
Ar gau rhwng 5pm dydd Iau 24 Rhagfyr a 9:30am Dydd Llun 4 Ionawr

Cei Connah a Threffynnon

Dydd Llun 21 Rhagfyr i ddydd Iau 24 Rhagfyr, rhwng 9.00am a 5pm
Ar gau rhwng 5pm dydd Iau 24 Rhagfyr a 9:00am Dydd Llun 4 Ionawr

Y Fflint

Dydd Llun 21 Rhagfyr i ddydd Iau 24 Rhagfyr, rhwng 8.30am a 5pm
Dydd Mawrth 29 Rhagfyr i ddydd Iau 31 Rhagfyr, rhwng 8.30am a 5pm

I gysylltu â gwasanaethau'r Cyngor mewn argyfwng, dyma'r Rhifau Cysylltu: Priffyrdd 0300 123 3086
Tai ac Eiddo: 0300 123 3086
Gwasanaethau Cymdeithasol: 0845 053 3116

Gallwch hefyd ddefnyddio ein gwefan i gael gwybodaeth ac i gysylltu â ni www.siryfflint.gov.uk

Marchnadoedd Sir y Fflint dros gyfnod y Nadolig

Dydd Mercher 23 Rhagfyr	Marchnad Yr Wyddgrug
Dydd Iau 24 Rhagfyr	Yr Wyddgrug (Marchnad Nadolig ychwanegol), Marchnadoedd Treffynnon, Cei Connah
Dydd Gwener 25 Rhagfyr	Marchnad y Fflint wedi'i chanslo
Dydd Sadwrn 26 Rhagfyr	Marchnad yr Wyddgrug wedi'i chanslo
Dydd Mercher 30 Rhagfyr	Marchnad Yr Wyddgrug
Dydd Iau 31 Rhagfyr	Marchnadoedd Treffynnon, Cei Connah
Dydd Gwener 1 Ionawr 2016	Marchnad y Fflint wedi'i chanslo
Dydd Sadwrn 2 Ionawr	Marchnad Yr Wyddgrug



Gwahardd gwaith ffordd dros y Nadolig

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gosod gwaharddiad ar waith ffordd nad yw'n waith brys ar bob prif lwybr drwy Sir y Fflint ac yng nghanol trefi yn ystod cyfnod y Nadolig.

Dywedodd Bernie Attridge, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a'r Dirprwy Arweinydd, "Oherwydd y cynnydd sylweddol mewn traffig cerbydau a cherddwyr yng nghanol ein trefi a'r cyffiniau yn y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig a dros yr ŵyl a'r Flwyddyn Newydd, rydym wedi cyflwyno gwaharddiad ar waith ffordd er mwyn lleihau'r tagfeydd traffig ar rwydwaith priffyrdd y Cyngor. Mae'r Cyngor Sir hefyd yn gweithio'n agos gyda'r cwmnïau cyfleustodau er mwyn osgoi tagfeydd a sicrhau hyfywedd parhaus yn ein trefi".

Bydd y gwaharddiad yn dechrau ddydd Gwener 11 Rhagfyr ac yn parhau mewn grym tan ddydd Llun 4 Ionawr 2016.

[Taylorfitch \(http://www.taylorfitch.com/\)](http://www.taylorfitch.com/). Dod â newyddlenni yn fyw o flaen eich llygaid